# Aelodau Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru a Darparwyr Hyfforddiant

Mae tri math o aelodaeth yn y rhwydwaith:

**Ymgynghorwyr** - mae'r rhain fel arfer yn dod o sefydliadau fel Agored Cymru ac maent yn gweithredu fel cynghorwyr ar y gwaith o ddatblygu a gwerthuso cymwysterau.

Yr aelodau ymgynghorol ar hyn o bryd yw:

Dafydd Baker - Rheolwr Datblygu'r Cwricwlwm, Agored Cymru

Sue Williams - Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Polisi Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (CNC)

Ysgrifenydd - Mae CNC yn cefnogi'r Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru ac yn gweithredu fel yr ysgrifenyddiaeth

Swyddog presennol: Karen Clarke

**Sylwedyddion** - Yr aelodau hyn yw'r rhai nad ydynt mewn sefyllfa eto i ddod yn hyfforddwr ond maent yn gweithio mewn maes tebyg ac mae ganddynt ddiddordeb proffesiynol.

Yr aelodau arsylwi ar hyn o bryd yw:

Tom Cockbill - Elfennau Gwyllt

Anney Thornton Wood – Outdoor Learning Resources

Pippa Gallagher – Cyngor Sir y Fflint

Kirsten Manley – Coed Cadw

**Hyfforddwyr** - gweler y rhestr isod

**Darparwyr Hyfforddiant**

## *Argymhellir eich bod yn defnyddio aelodau Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru i ddarparu eich hyfforddiant.*

Mae'r holl hyfforddwyr a restrir isod yn bodloni'r gofynion a osodwyd gan y Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru ac felly yn darparu hyfforddiant cyfredol o safon uchel sy'n cael ei adolygu o ran ansawdd yn rheolaidd.

Cysylltwch â'r hyfforddwr neu ewch i'w gwefan am ragor o wybodaeth am gyrsiau, lleoliadau a chostau.

Rhestrir hyfforddwyr yn ôl yr ardaloedd lle maent yn cael eu lleoli, ond nid yw hyn yn golygu nad yw'r cyrsiau a reolir ganddynt wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hyn yn unig.

## Ardal De-ddwyrain Cymru - Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen

**Sefydliad: Ymddiriedolaeth Natur Gwent:**
**Ymddiriedolaeth Natur Gwent** yw prif elusen cadwraeth De-ddwyrain Cymru, sy'n gweithio ar gyfer bywyd gwyllt a phobl ein tirwedd cyfoethog ac amrywiol. Ers dros 50 mlynedd, rydym wedi bod yn amddiffyn bywyd gwyllt a gweithio i addysgu, dylanwadu a grymuso pobl i ddeall bywyd gwyllt a'i bwysigrwydd yn lle maent yn byw.

***Hyfforddwyr Arweiniol:Natalie Waller a Kathy Barclay***
Mae Natalir a Kathy yn gweithio i Ymddiriedolaeth Natur Gwent fel addysgwyr bywyd gwyllt ond maent yn hyfforddwyr cyswllt gyda Cambium Sustainable Ltd.Rhyngddynt, mae ganddynt 23 mlynedd o brofiad o ddysgu yn yr awyr agored ac mae'r ddau ohonynt yn Hyfforddwyr Ysgol Goedwig achrededig Lefel 4 Agored Cymru.

**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Dysgu yn yr Awyr Agored Lefel 1 (Pobl ifanc)
- Dysgu yn yr Awyr Agored Lefel 2 (Ymarferydd Dysgu yn yr Awyr Agored)
- Dysgu yn yr Awyr Agored Lefel 3 (Cydlynydd Cwricwlwm Awyr Agored)
- Cynorthwyo mewn Ysgol Goedwig (Lefel 2)
- Arweinydd Ysgol Goedwig (Lefel 3)
- Gallwn hefyd gynnig cyrsiau dysgu yn yr awyr agored, heb eu hachredu, ar gyfer ysgol gyfan

**Rhagor o fanylion:**

https://www.gwentwildlife.org/cy/teacher-training

## Ardal Canol De Cymru - Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd

**Sefydliad: Academi Traethau Cymru**

***Hyfforddwr Arweiniol: Emma Lamport***
Gydag angerdd am y byd naturiol a'r amgylchedd arfordirol gyda set benodol o sgiliau arbenigol sy'n gysylltiedig â'r arfordir. Profiadol iawn yn cyflwyno Addysg Amgylcheddol, Addysg Forol a Llythrennedd Cefnfor, Dysgu yn yr Awyr Agored a gweithgareddau STEM ynglŷn â'r arfordir, gan ein haddysgu, ein grymuso a'n hysbrydoli ar sut i ofalu am yr amgylcheddau a chynefinoedd hallt a'u gwarchod. Athrawes gymwysedig ac AHO mewn Dysgu yn yr Awyr Agored (16+), Ymarferydd Ysgolion Traeth, Biolegydd Morol, Meddygon Mamaliaid Morol a Phlymwyr Dŵr Agored PADI.

**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Cwrs Arweinydd Ysgol Arfordirol (Lefel 3)
- Cwrs atodol achrededig ar gyfer Arweinwyr Ysgolion Coedwig

Ar gyfer Arweinwyr Ysgolion Coedwig sy'n dymuno arwain Ysgol Arfordirol. Mae'r cwrs atodol Agored Cymru hwn yn eich galluogi i ddefnyddio'r hyn yr ydych eisoes yn ei wybod, datblygu sgiliau a gwybodaeth newydd sy'n ofynnol i'w cymhwyso i'r amgylchedd arfordirol i gynllunio, cynnal a gwerthuso sesiynau Ysgol Arfordirol i blant.Cwrs achrededig tri diwrnod (2+1) Lefel 3

**Rhagor o fanylion:**
www.beachacademywales.com
Ffôn symudol - 07966 572273
E-bost - beachacademywales@gmail.com
Facebook - https://www.facebook.com/beachacademywales/
Twitter - https://twitter.com/BeachAcadWales
Instagram - https://www.instagram.com/beachacademywales/

## Ardal De-orllewin Cymru - Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin

**Sefydliad: Ysgol Goedwig Abertawe,Castell-nedd, Port Talbot**

Sefydlwyd Ysgol Goedwig Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn 2001 fel elusen a chwmni cyfyngedig drwy warant, a'i nod oedd darparu cyfleoedd Ysgol Goedwig i blant a phobl ifanc ledled Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ein hamcanion yw hybu hunan-barch a hunanhyder, codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol a gwerthfawrogiad ohono.

**Yr hyn ydym yn ei gynnig:**

- Lefel 2 Ysgol y Goedwig a Dysgu yn yr Awyr Agored Seiliedig ar y Cwricwlwm
- Lefel 3 Ysgol y Goedwig, Cydlynydd Cwricwlwm Awyr Agored ac Ysgol yr Arfordir

**Rhagor o fanylion:**
www.forestschoolsnpt.org.uk

**Sefydliad: Down to Earth**
Mae Down to Earth yn cynnal profiadau ystyrlon yn yr awyr agored sy'n canolbwyntio ar berthynas sydd â'r potensial i newid bywydau pobl. Gwneir hyn trwy ddulliau arloesol a chynhwysol, fel creu adeiladau rhyfeddol gyda deunyddiau naturiol, rhaglenni dysgu a llesiant heb eu hail a thrwy weithgareddau antur o'n dwy ganolfan wedi'u hadeiladau â llaw yn y Gŵyr.

**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**
- Amrywiaeth o unedau a chymwysterau achrededig mewn sgiliau gweithgareddau awyr agored.
- Amrywiaeth o Lefel Mynediad a Lefel 1
- Dysgu yn yr Awyr Agored - Lefel 1 a Lefel 2
- Llesiant mewn Natur - Lefel 3

**Rhagor o fanylion:**
www.downtoearthproject.org.uk
info@downtoearthproject.org.ukinfo@downtoearthproject.org.uk

## Ardal Canolbarth Cymru - Ceredigion a Phowys

**Sefydliad: Cambium Sustainable Ltd**
Mae Cambium Sustainable Ltd wedi'i leoli yn Nhalgarth, de Powys, yn darparu hyfforddiant o safon uchel mewn Dysgu mewn Amgylcheddau Naturiol sy'n grymuso pobl i gyfoethogi eu bywydau trwy ymgysylltu â'u hardaloedd yn yr awyr agored lleol. Mae ein cyrsiau amrywiol ynglŷn â dysgu yn yr awyr agored ac ysgol goedwig i gyd yn cynnig llwybrau at lwyddiant i bob math o unigolion ifainc sy'n parhau yn yr ysgol hyd at bobl sy'n dymuno gwella eu datblygiad proffesiynol.
Wedi'n sefydlu yn 2000, rydym wedi gweithio gyda miloedd o unigolion a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg.
Cambium Sustainable Ltd oedd un o'r sefydliadau hyfforddiant ysgol goedwig cyntaf i'w sefydlu yn y DU ac mae gan y sefydliad dros 20 mlynedd o brofiad o weithio ym maes Addysg yn yr Awyr Agored.

***Hyfforddwr Arweiniol: Sam Goddard***
Mae gan Cambium Sustainable Ltd hefyd rwydwaith o hyfforddwyr cyswllt ledled y DU, a rhestrir rhai ohonynt yn y cyfeirlyfr hwn.
**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**
- Lefel 1 fel cwrs cyflwyno ac i bobl ifanc
- Lefel 2 mewn Ysgol Goedwig a Dysgu yn yr Awyr Agored Seiliedig ar y

Cwricwlwm
- Lefel 3 mewn Ysgol Goedwig, Cydlynydd Cwricwlwm Awyr Agored ac Ysgol Arfordirol
- Lefel 4 - Hyfforddwr Ysgol Goedwig a Dysgu yn yr Awyr Agored

**Rhagor o fanylion:** www.cambiumsustainable.co.uk

**Sefydliad: RAY Ceredigion**
Mae RAY Ceredigion yn elusen gofrestredig sy'n cwmpasu sir Ceredigion sydd wedi'i lleoli yn nhref harbwr arfordirol Aberaeron gyda chyfleusterau hyfforddi rhagorol.

***Hyfforddwr Arweiniol:Gill Byrne***

**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**
- Cynorthwyo mewn Ysgol Goedwig (Lefel 2)
- Arweinydd Ysgol Goedwig (Lefel 3)
- Ysgol Arfordirol Lefel 3 (ar gael fel uned ar ei phen ei hun neu fel uned atodol)
- Gwobrau mewn Dysgu yn yr Awyr Agored

**Rhagor o fanylion:**
www.rayceredigion.org.uk/cy/
https://www.facebook.com/RAYCeredig
E-bost - gill.byrne@btconnect.com

## Ardal Gogledd Cymru

**Sefydliad - Dysgu yn yr Awyr Agored Gogledd Cymru Cyf**

Mae Dysgu yn yr Awyr Agored Gogledd Cymru Cyf yn cyflwyno cyrsiau achrededig cyffredinol ac unigryw o safon uchel ar draws Gogledd Cymru a'r gororau.

Rydym yn Ganolfan Gorff Dyfarnu gydag Agored Cymru, gan sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu cynnal a'u gwirio.

Wedi'n lleoli yng Ngogledd Cymru hardd, mae gennym fynediad at nifer o safleoedd i ddiwallu elfennau ymarferol pob cwrs neu gallwn ddarparu hyn ar eich safle eich hun os yw hynny'n well gennych. Gallwn gynnig syniadau ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau tymhorol, yn ogystal â'ch helpu i sicrhau yr ymgorfforir Dysgu yn yr Awyr Agored yn eich lleoliad a'i fod yn ffactor sy'n cyfrannu at ddatblygu'r pedwar diben a chyflwyno ar draws y chwe maes Dysgu a Phrofiad i gyd.

**Hyfforddwyr arweiniol:**
Mae gan Carolyn Burkey a Polly Snape dros 20 mlynedd o brofiad mewn addysgu, addysg yn yr awyr agored ac ysgol goedwig.

**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Cwrs cyflwyno Lefel 1 neu ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 19 un
- Lefel 2 Ymarferydd Dysgu yn yr Awyr Agored Seiliedig ar y Cwricwlwm
- Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarferydd Chwarae yn yr Awyr Agored
- Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynorthwyo mewn Ysgol Goedwig
- Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynorthwyo mewn Ysgol Arfordirol
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Cydlynu a Chwricwlwm Awyr Agored
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Arwain Ysgol Goedwig
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Arwain Ysgol Arfordirol
- Datblygiad proffesiynol parhaus cysylltiedig

**Rhagor o fanylion:**

E-bost: info@northwalesoutdoorlearning.co.uk
Ffôn symudol: 07799833876
Gwefan: www.northwalesoutdoorlearning.co.uk

## Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru - Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam

**Sefydliad: Canolfan Crefftau'r Goedwig**
Mae Canolfan Crefftau'r Goedwig yn cael ei rhedeg gan gwmni menter cymdeithasol sy'n gweithredu o safle coetir 50 erw yng nghanol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae ganddi ardd goed, perllan dreftadaeth, dolydd blodau gwyllt, gwenynfa, gwinllan, gardd berlysiau feddyginiaethol, meithrinfa goed, rhandiroedd, twneli polythen a gweithdai. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnal rhaglen amrywiol o gyrsiau mewn crefftau traddodiadol, rheoli cefn gwlad, gwylltgrefft, garddwriaeth, celf, crefft ac ymwybyddiaeth ofalgar. Maent hefyd yn cynnal digwyddiadau i ysgolion, plant a theuluoedd ac maent yn cynnig rhaglen o gerddoriaeth, drama a barddoniaeth fyw yn yr awyr agored.. Mae ganddynt raglen Rhagnodi Gymdeithasol fawr gyda chontractau hirhoedlog â Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a chyrff comisiynu eraill. Mae gan y Ganolfan gysylltiadau cryf â llawer o sefydliadau eraill fel Coed Lleol, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid.

**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Mae'r ganolfan yn cynnal amrywiaeth eang o gyrsiau mewn crefftau traddodiadol.
- Cyrsiau Ardystiedig mewn Rheoli'r Coetir a Chefn Gwlad.
- Dysgu yn yr Awyr Agored
- Ymwybyddiaeth ofalgar
- Cymorth cyntaf
- Ymarferydd Llesiant mewn Natur.

**Rhagor o fanylion:**

https://woodlandskillscentre.uk enquiries@woodlandskillscentre.co.uk
Ffôn - 01745 710626

***Noder*** *bod darparwyr eraill yn cyflwyno cyrsiau ac unedau achrededig ac heb eu hachredu yng Nghymru nad ydynt yn aelodau o'r* ***Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu yn y Awyr Agored*** *ac felly ni allwn sicrhau ansawdd yr addysgu, y cyflwyno a'r cymorth* .